

Partneriaeth Dysgu a Sgiliau Ranbarthol De-orllewin a
Chanolbarth Cymru
Bwrdd Partneriaeth Dysgu a Sgiliau Ranbarthol

COFNODION Y CYFARFOD
A GYNHALIWYD
ddydd Mercher 6 Mawrth 2019, 2pm
Canolfan Arloesi Bae Baglan, Port Talbot



Yn bresennol:

Enw		Yn cynrychioli
Paul Greenwood	PG	Cadeirydd y Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Ranbarthol
Sharron Lusher	SL	Bwrdd Menter Dyfrffordd y Ddaugleddau
Barry Liles OBE	BL	Cadeirydd Grŵp Darparu
Huw Matthias	HM	Cadeirydd Deunyddiau Uwch a Gweithgynhyrchu
Judith James	JJ	Addysg Uwch
Louise White	LW	Cadeirydd Diwydiannau Creadigol a Gwasanaethau Proffesiynol
Emma Bengier	EB	Gyrfa Cymru
Samantha Wilson Croft	SC	Cadeirydd Twristiaeth a Hamdden
Rhys Morgan	RM	Yr Adran Gwaith a Phensiynau
Edward Morgan	EM	Cadeirydd Bwyd a Ffermio
Phil Lumley	PL	Cadeirydd Adeiladu
Tony Sawyer	TS	Cadeirydd Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Mark Jones	MJ	Addysg Bellach
Rob Basini	RB	Ffederasiwn y Busnesau Bach
Helen Rees-Morgan	AR	Cyfarwyddwr Addysg
Martin Nicholls	MN	Cyfarwyddwr Adfywio
Kathryn Robson	KR	Addysg Oedolion Cymru
Jane Lewis	JL	Y Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Ranbarthol

Cyf	Yr eitem	I'w weithredu gan
1.0	<p>Ymddiheuriadau</p> <p>Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan – Gareth Morgans Mike Shaw Ceri Stephens Kim Phelps Arwyn Watkins Nicky Howells</p>	

Cyf	Yr eitem	I'w weithredu gan
2.0	<p>Croeso a Chyflwyniadau Estynnodd y Cadeirydd groeso i Samantha Wilson-Croft ac Edward Morgan i'w cyfarfod cyntaf a'u llongyfarch ar gael eu penodi yn gadeiryddion grwpiau clwstwr Twristiaeth a Hamdden a Bwyd a Ffermio.</p> <p>CYTUNWYD: anfon llythyr at Nigel Williams a Lucy Good gan ddiolch iddynt am eu cyfraniad at y Bwrdd fel Cadeiryddion y grwpiau clwstwr Twristiaeth a Hamdden a Bwyd a Ffermio.</p>	JL
3.0	<p>Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf Cadarnhaodd JL fod y camau gweithredu wedi'u cwblhau a gofynnodd am gymeradwyaeth o gofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 23 Ionawr 2019.</p> <p>Cofnod rhif 5 - Rhoddodd JL wybod i'r Bwrdd y byddai Rhodri Griffiths yn cael ei wahodd i gyfarfod nesaf y Bwrdd. Cofnod rhif 8 - Rhoddodd JL wybod i'r Bwrdd fod cyllid y Gronfa Datblygu Cynaliadwy a chyllid y Rhaglen Uwchymarferydd yn cael ei adolygu ar hyn o bryd ac y byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno yn y cyfarfod nesaf. Cadarnhaodd MJ hefyd fod cais am sicrwydd ynghylch dyfodol y gronfa wedi'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru.</p> <p>Cytunwyd: bod y cofnodion yn cael eu cymeradwyo gan eu bod yn gywir</p>	
4.0	<p>Adroddiad y rheolwyr A Y wybodaeth ddiweddaraf am benodi Cadeirydd y Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Ranbarthol Dywedodd JOL fod y ddogfen a amlinellai rôl y Cadeirydd wedi'i dosbarthu i bawb ar gronfa ddata'r Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Ranbarthol, i holl gadeiryddion y grwpiau clwstwr i'w dosbarthu'n ehangach; i Ffederasiwn y Busnesau Bach, Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru a'r Adran Gwaith a Phensiynau. Hyd yn hyn, roedd dau gais wedi dod i law.</p> <p>B Penodi Cadeiryddion y grwpiau clwstwr. Atgoffwyd y Bwrdd gan JL y cytunwyd yn y cyfarfod y byddai'r broses o benodi Cadeiryddion y grwpiau clwstwr yn cael ei chyflawni dros gyfnod er mwyn sicrhau bod cysondeb yn y Bwrdd. Dywedodd hi fod dau benodiad wedi'u gwneud ar gyfer y cyfarfod hwn ac y gofynnwyd i'r holl grwpiau clwstwr ystyried penodi cadeirydd yn ystod y cyfarfodydd grŵp diweddar. Bydd y Cadeiryddion eraill yn cael eu cadarnhau i'r Bwrdd yn y cyfarfod ym mis Gorffennaf.</p>	

Cyf	Yr eitem	I'w weithredu gan
	<p>C Ymchwiliad i Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol</p> <p>Dywedodd JL fod Pwyllgor Economi, Seilwaith a Sgiliau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cynnal adolygiad o'r tair Partneriaeth Sgiliau yng Nghymru. Dyma'r prif feysydd sy'n cael eu cynnwys yn yr adolygiad:</p> <ol style="list-style-type: none"> Data a thystiolaeth a ddefnyddir gan y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol Gwaith ymgysylltu'r partneriaethau â chyflogwyr Y cyswllt rhwng gwaith y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol a'r gwaith o fewn y Bargeinion Dinesig a Thwf. Y gallu i adlewyrchu gofynion o ran sgiliau yn awr ac yn y dyfodol Gwybodaeth am yr economi sylfaenol a'r iaith Gymraeg A oes digon o adnoddau gan y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol? Polisi Llywodraeth Cymru ynghylch sgiliau a sgiliau lefel uwch Effeithiau/newidiadau y mae'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol wedi dylanwadu arnynt <p>Dywedodd JL y byddai hi'n rhoi tystiolaeth i'r Pwyllgor ar 21 Mawrth a bod Mark Jones hefyd wedi'i wahodd i roi tystiolaeth ar ran y Colegau Addysg Bellach. Byddai Ffederasiwn y Busnesau Bach; Consortiwm Manwerthwyr Cymru; Fforwm Gofal Cymru a'r Ffederasiwn Bwyd a Diod; Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru; Comisiynydd y Gymraeg a'r sector Prifysgolion yn cwrdd â'r Pwyllgor ar 27 Mawrth a 4 Ebrill.</p> <p>Nododd y Bwrdd yr adroddiad</p> <p>D Arolwg i Gyflogwyr</p> <p>Dywedodd JL fod yr arolwg wedi'i ddsbarthu i dros 13,000 o fusnesau drwy ddefnyddio ffyrdd dosbarthu amrywiol a diolchodd i holl aelodau'r Bwrdd am eu gwaith o ran cael ymatebion gan y busnesau. Dywedodd fod 165 o arolygon wedi'u cwblhau hyd yn hyn gan fusnesau, ond roedd mwy ohonynt yn dod i law bob dydd. Dywedodd fod yna ymgyrch newydd i annog busnesau a oedd wedi cwblhau'r arolwg y llynedd ond nad oeddent wedi'i gwblhau hyd yn hyn a gofynnodd i aelodau'r Bwrdd a oedd unrhyw syniadau eraill ganddynt.</p> <p>Awgrymodd aelodau'r Bwrdd gynnwys gwybodaeth fwy uniongyrchol am yr hyn sydd wedi newid o ganlyniad i'w cyfraniadau ac mae'n bosibl y bydd hyn yn annog mwy o fusnesau i gwblhau'r arolwg.</p> <p>CYTUNWYD: bod data ynghylch y newidiadau ar gyfer pob sector yn cael ei gynnwys mewn e-bost gan Gadeirydd pob grŵp clwstwr a Ffederasiwn y Busnesau Bach.</p>	<p>JL</p>

Cyf	Yr eitem	I'w weithredu gan
	<p>Dywedodd JL eu bod hefyd yn comisiynu darn o waith gan contractwr allanol er mwyn casglu data newydd am gwmnïau gan dargedu sectorau'n benodol lle'r oedd cyfradd ddychwelyd isel. Byddai'r gwaith hwn yn cael ei wneud yn ystod mis Ebrill a mis Mai ac yn targedu 500 o fusnesau ychwanegol.</p> <p>Dywedodd JL y byddai grŵp clwstwr newydd yn cael ei sefydlu ar gyfer cyrff y sector cyhoeddus gan gynnwys y 6 Awdurdod Lleol, y Gwasanaeth Tân, yr Heddlu, Byrddau Iechyd, yr Ymddiriedaeth Ambiwlans ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol</p>	
5.0	<p>Y wybodaeth ddiweddaraf am Gynllun Cyflogaeth a Sgiliau Rhanbarthol 2019</p> <p>JL – rhoddodd wybod i aelodau'r bwrdd nad oedd y Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Ranbarthol wedi cael manyleb ffurfiol gan Lywodraeth Cymru. Disgwylir y byddai'r cynllun yn para am gyfnod o 3 blynedd. Disgwylir i ddata ddod i law gan Lywodraeth Cymru hefyd.</p>	
6.0	<p>Cyflwyniad gan Rob Basini o Ffederasiwn y Busnesau Bach ynghylch adroddiad Skilful Wales</p> <div style="display: flex; justify-content: space-around; align-items: center;">   </div> <p>A Skilful Wales Presentation V1.ppt FSB Wales A Skilful Wales Report Decen</p> <p>Amlinellodd RB ganfyddiadau'r adroddiad a dywedodd fod gwaith wedi'i wneud i ymgysylltu â 455 o fusnesau ledled Cymru fel rhan o'r broses. Dywedodd fod 162 o fusnesau wedi ymateb yn rhanbarth Partneriaeth Dysgu a Sgiliau Ranbarthol De-orllewin a Chanolbarth Cymru. Roedd nifer o'r materion a bwysleiswyd gan gyflogwyr yn debyg iawn i'r rheiny a godwyd yng nghynllun y Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Ranbarthol, gan gynnwys ymagwedd tuag at waith; anawsterau o ran profiad a recriwtio. Mae'r adroddiad hefyd yn pwysleisio'r math o hyfforddiant y mae ei angen a pha ddull o hyfforddiant y mae'r cwmnïau yn ei ddefnyddio a'r angen am sgiliau meddal a hyfforddiant mwy hyblyg.</p> <p>Camau i'w cymryd: dosbarthu'r adroddiad i aelodau'r Bwrdd.</p>	JL
7.0	<p>Derbyn y newyddion diweddaraf am y Fargen Ddinesig a'r Ymyrraeth Sgiliau.</p> <p>JL - Rhoddodd wybod i'r aelodau fod adolygiad Bargaen Ddinesig Bae Abertawe bron wedi'i gwblhau a'r gobaith oedd y byddai'r prosiectau wedyn yn gallu cael eu datblygu ymhellach. Darperir diweddariad pellach yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd. Rhoddodd BL y wybodaeth ddiweddaraf am y Bwrdd</p>	

Cyf	Yr eitem	I'w weithredu gan
	<p>Strategaeth Economaidd a dywedodd fod Rhodri Griffiths bellach yn arwain ar y gwaith o ddarparu'r Fargen Ddinesig a Thwf yn y rhanbarth.</p> <p>Dywedodd MN fod angen i'r prosiect sgiliau gael ei gymeradwyo ar yr un pryd â'r prosiect cyntaf er mwyn sicrhau bod unrhyw newidiadau yn y dirwedd sgiliau'n cael eu datblygu.</p>	
8.0	<p>Y Diweddaraf gan Gadeiryddion y Grwpiau Clwstr Diwydiant a Darparwyr.</p> <p>PL - Rhoddodd wybod i'r grŵp fod cynrychiolaeth dda o'r sector yng nghyfarfod y grwpiau clwstr lle'r oedd contractwyr Haen 1 a 2 a Busnesau Bach a Chanolig yn bresennol. Dywedodd PL fod gwaith yn cael ei wneud ar gynllun i ddatblygu lleoliadau mewn ysgolion a chynyddu'r cyfleoedd ar gyfer prentisiaethau.</p> <p>TS – Wedi rhannu â'r grŵp ei fod yn aelod o dîm Gofal Cymdeithasol Cymru a grŵp Datblygu'r Gweithlu Iechyd ar ran y Bartneriaeth a'i gwmni. Dywedodd fod nifer o'r cwmnïau yr oedd wedi siarad â nhw yn hapus bod Lefel 2 wedi'i chadw fel angen hyfforddiant a nodir yn y rhanbarth ond bod materion yn cael eu codi o hyd ynghylch yr ardoll brentisiaethau a delir gan y Byrddau Iechyd a'r Ymddiriedolaeth Ambiwlans a'r sefydliadau y mae angen iddynt adennill peth o'r arian hwn drwy hyfforddiant prentisiaethau.</p> <p>EM - cyfeiriodd at fodel arferion da o'r enw "Tasty Careers" a allai gael ei gyflwyno mewn sectorau eraill. Roedd y map gyrfaoedd yn dangos cyfleoedd gwaith yn y sector bwyd a allai gael eu targedu ar gyfer y bobl ifanc sy'n gadael yr ysgol. Dywedodd EM ei fod wedi cysylltu â nifer o sefydliadau a'i fod yn canolbwyntio ar y gymuned ffermio er mwyn eu hannog i gyfrannu at yr arolwg.</p> <p>LW - cyfeiriodd at Addewid Caerdydd sy'n dod â'r sectorau cyhoeddus a'r sectorau preifat at ei gilydd i weithio mewn partneriaeth a chysylltu pobl ifanc â'r ystod eang o gyfleoedd ym myd gwaith. Nod Addewid Caerdydd yw sicrhau bod yr holl bobl ifanc yn y ddinas yn cael swydd sy'n eu galluogi i gyflawni eu potensial llawn wrth gyfrannu at dwf economaidd y ddinas. Dywedodd LW fod nifer o sefydliadau mawr eisoes wedi llofnodi'r addewid a gofynnodd a oes modd cyflwyno addewid o'r fath yn Abertawe.</p> <p>Dywedodd EB fod Gyrfa Cymru yn gweithio gyda 12,000 o gyflogwyr a bod y cyflogwyr hynny wedi gwneud addewid i weithio gydag ysgolion.</p> <p>Camau i'w cymryd: Cynnwys eitem ar agenda'r grwpiau clwstr i ystyried ymgysylltu â chyflogwyr.</p> <p>HM - Dywedodd yr aeth nifer o gyflogwyr newydd i'r grŵp clwstr diwethaf a chafwyd trafodaeth helaeth wedi'i chynnal ynghylch y gradd-brentisiaethau ar gyfer peirianeg a</p>	

Cyf	Yr eitem	I'w weithredu gan
	<p>gweithgynhyrchu. Roedd rhai pryderon ynghylch yr amser yr oedd yn ei gymryd i gael cytundeb ynghylch y rhaglen radd-brentisiaethau. Roedd trafodaeth hefyd ynghylch at ba ddibenion yr oedd cyllid y Gronfa Datblygu Cynaliadwy yn cael ei defnyddio gan gynnwys mynd â chŵn am dro a gofalu am anifeiliaid anwes.</p> <p>Camau i'w cymryd: rhoi gwybod yn y cyfarfod nesaf pa gysiau sy'n cael eu darparu o dan y Gronfa Datblygu Cynaliadwy.</p>	JL
9.0	<p>Unrhyw Fater Arall</p> <p>Rhoddodd RB wybod i'r Bwrdd y byddai digwyddiad yn cael ei gynnal ynghylch y Comisiwn Cyflogau Isel ar 20 a 21 Mawrth yng Nghastell-nedd a Phort Talbot.</p> <p>Rhoddodd JL wybod i'r Bwrdd y byddai Matt yn gadael y Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Ranbarthol ar 22 Mawrth i weithio gyda thîm Polisi Llywodraeth Cymru.</p> <p>Camau i'w cymryd: anfon llythyr at Matt ar ran y Bwrdd gan ddiolch iddo am ei waith gyda'r Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Ranbarthol.</p>	
10.0	<p>Dyddiadau'r Cyfarfodydd Nesaf:</p> <p>11 Ebrill 2019, 2pm, y Goleudy, Llanelli 16 Mai 2019, 2pm, Gwesty'r Castell, Aberhonddu 12 Mehefin 2019, i'w gadarnhau</p>	